# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Practis Deintyddol Fairlight

Dyddiad arolygu: 1 Medi 2016

Dyddiad cyhoeddi: 2 Rhagfyr 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk



ISBN Digidol 978-1-4734-7260-0


© Hawlfraint y Goron 2016

## Cynnwys


1. Cyflwyniad ........................................ 2
2. Cyd-destun ........................................ 3
3. Crynodeb ........................................ 4
4. Canfyddiadau ........................................ 5

   Ansawdd Profiad y Claf ........................................ 5

   Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol ........................................ 8

   Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........................................ 122

5. Y Camau Nesaf ........................................ 133
6. Methodoleg ........................................ 144

   Atodiad A ........................................ 155

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cynhaliodd AGIC arolygiad o Bractis Deintyddol Fairlight yn Welsh St, Cas-gwent, Gwent, NP5 16LR ar 1 Medi 2016.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Practis Deintyddol Fairlight yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol ar ôl rhoi rhybudd, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn ffafrio darparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae gwasanaethau yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Fairlight yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn unig, ac mae wedi'i leoli yng Nghas-gwent.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys dau ddeintydd, dau hylenydd, un derbynnydd, rheolwr practis a thair nyrs ddeintyddol. Ar adeg yr arolygiad, roedd swyddi dwy nyrs ddeintyddol yn wag, gyda nyrsys asiantaeth yn cyflenwi yn y cyfamser.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol preifat.

## 3. Crynodeb

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth bod Practis Deintyddol Fairlight yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion, ac mae'r cleifion yn uchel eu parch tuag at y practis.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd boddhad cleifion yn uchel
- Roedd y wybodaeth i gleifion, gan gynnwys deunydd hyrwyddo iechyd, ar gael yn hygyrch
- Mae polisïau a gweithdrefnau cyfredol er mwyn gwarchod diogelwch cleifion
- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n hapus yn eu swyddi ac yn deall eu cyfrifoldebau
- Mae digon o gyfarpar yn y cyfleusterau clinigol, ac maent i'w gweld yn lân ac yn daclus
- Mae trefniadau ar waith i gynnal sganiau pelydr-x yn ddiogel
- Mae offerynnau deintyddol yn cael eu glanhau a'u sterileiddio yn y modd priodol.

Rydym yn argymell y gallai'r practis wella'r canlynol:

- Sicrhau bod diweddariadau hyfforddi a chofnodion staff yn cael eu cynnal
- Diweddaru'r polisi cwynion
- Datblygu proses gwirio stoc ar gyfer cyffuriau a reolir.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Canfuom fod y practis yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd yr adborth a gawsom drwy holiaduron cleifion AGIC yn gadarnhaol. Mae angen i'r polisïau cwynion sydd ar gael i gleifion fod yn gyfredol ac yn unol â'r rheoliadau.**

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cafodd 16 o holiaduron eu cwblhau a'u dychwelyd atom. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys:

> *"Rwyf yn fodlon iawn â'r practis ac rwyf wedi ei argymell wrth eraill."*
>
> *"Mae pawb yn barod iawn eu cymwynas. Roedden nhw'n fendigedig gyda fy machgen bach pan roedd ganddo ddannoedd."*
>
> *"Practis deintyddol rhagorol a gofalgar."*
>
> *"Mae'r practis deintyddol hwn yn cael ei redeg yn dda dros ben; mae hwyliau da ar y staff bob amser, maent yn gyfeillgar ac yn gymwynasgar. Rydym bob amser yn cael gwasanaeth a thriniaeth hollol dderbyniol."*

Gofal gydag urddas

Canfuom fod cleifion yn derbyn gofal mewn modd urddasol a pharchus. Gwnaethom ganfod bod gofod i staff gael trafodaethau â chleifion mewn man preifat, oddi wrth y cleifion eraill, os oes angen. Clywsom staff yn siarad â chleifion mewn ffordd gyfeillgar a phroffesiynol. Roedd yr adborth gan y cleifion a gwblhaodd ein holiaduron yn gadarnhaol yn gyffredinol.

Ar un achlysur, gwelsom fod drws yr ystafell driniaeth wedi cael ei adael ar agor tra oedd claf yn derbyn triniaeth. Gwnaethom drafod pwysigrwydd sicrhau y caiff drysau ystafelloedd triniaeth eu cau yn ystod triniaeth, am resymau preifatrwydd ac urddas, ac fe'n sicrhawyd bod hynny'n digwydd fel rheol.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn ystyried a oes angen system dolen sain yn y dderbynfa er mwyn cynorthwyo pobl sydd â nam ar y clyw gyda'u hanghenion cyfathrebu.

Roedd ystod eang o wybodaeth i'w gweld ac ar gael i gleifion. Fodd bynnag, roedd yna ddiffyg gwybodaeth wedi'i chynhyrchu mewn fformatau ac ieithoedd eraill, gan gynnwys y Gymraeg. Dylai'r practis hefyd ystyried sut y gallai wneud gwybodaeth yn fwy hygyrch i amrywiaeth ehangach o gleifion, megis trwy ddarparu gwybodaeth mewn fformatau ac ieithoedd eraill, gan gynnwys y Gymraeg. Gellir asesu’r angen am hyn drwy gael adborth gan gleifion.

Gwelsom fod rhestr brisiau triniaethau ar gael yn y ffeiliau gwybodaeth i gleifion, fel bod cleifion yn cael eu hysbysu am gostau. Gwnaethom gynghori y dylid arddangos y rhestr brisiau mewn man fwy blaenllaw yn yr ystafell aros ac fe gafodd hyn ei gwblhau yn ystod ein hymweliad.

<u>Gofal amserol</u>

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu mewn modd amserol ac roedd yna bolisi ar waith ag amcanion clir ynghylch amseroedd aros. Roedd yna system apwyntiadau hyblyg fel y gallai cleifion drefnu apwyntiadau o flaen llaw. Dywedodd rhan fwyaf y cleifion yn holiaduron AGIC nad oeddent wedi profi oedi cyn cael eu gweld gan y deintyddion ac roedd mwyafrif y cleifion yn gwybod sut i gael mynediad at ofal deintyddol tu allan i oriau. Gwelsom arwydd yn ffenestr y practis a oedd yn cynnwys manylion y rhif ffôn cyswllt mewn argyfwng er mwyn i  gleifion gael mynediad at ofal deintyddol brys pan fo'r practis ar gau.

<u>Cadw’n iach</u>

Mae gwybodaeth hybu iechyd yn gymorth i gefnogi cleifion i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC wrthym eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth.

Gwnaethom sylwi bod gwybodaeth hybu iechyd ar gyfer cleifion, megis ymwybyddiaeth o ganser y geg, rhoi'r gorau i ysmygu, a gwybodaeth gyffredinol am sut y gallai cleifion wella iechyd eu cegau ar gael mewn ffeiliau gwybodaeth i gleifion yn yr ystafell aros. Gwnaethom awgrymu y gallai'r practis labelu'r ffeiliau hyn yn eglur fel "gwybodaeth i gleifion" er mwyn annog cleifion i edrych ar y wybodaeth hon ymhellach. Gwnaeth y staff gwblhau hyn yn ystod ein hymweliad.

<u>Gofal unigol</u>

Roedd gan y practis enghreifftiau o gardiau diolch a chanmoliaeth a roddwyd gan gleifion fel adborth. Roedd holiadur ffurfiol ar waith er mwyn canfod ac adolygu adborth gan gleifion, fel modd o asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Gwnaethom awgrymu y gellid dosbarthu holiaduron cleifion ar sail

reolaidd, gan rannu’r canlyniadau â chleifion, er mwyn dangos y camau gweithredu a'r gwersi a ddysgwyd, i ehangu ar y broses hon ymhellach.

Roedd gan y practis weithdrefn ar waith er mwyn i gleifion leisio pryderon (cwynion). Gwnaethom ganfod bod angen cynnwys rhagor o fanylion ar y weithdrefn a arddangosir yn y dderbynfa er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.[1] Tra bo'r manylion ar wefan y practis yn ddigonol, roedd angen gwybodaeth bellach am y polisi cwynion a arddangosir yn y dderbynfa a'r mannau aros. Y rheswm am hyn yw nad oedd y polisi yn cynnwys manylion cyswllt AGIC fel dull o uwchgyfeirio cwynion nac yn nodi targedau amser ar gyfer ymateb i gwynion yn llawn.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen i'r polisïau cwynion sydd ar gael i gleifion fod yn gyson ac yn unol â'r rheoliadau, gan gynnwys manylion cyswllt AGIC a thargedau amser ymateb i gwynion.***

Gwelsom fod y practis wedi derbyn un pryder bychan/cwyn a bu ymateb prydlon a phriodol. Gwelsom fod cwynion yn cael eu cofnodi yn briodol.

[1] Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Ar y cyfan, roeddem yn fodlon bod y practis yn darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Canfuom fod yr holl ystafelloedd triniaeth yn lân, yn daclus ac wedi'u trefnu yn dda a bod y practis wedi cymryd camau i sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion. Roeddem yn fodlon ar y trefniadau i ddiogelu staff a chleifion rhag heintiau y gellir eu hosgoi sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn y practis deintyddol hwn.Roedd yr offer pelydr-X yn cael eu defnyddio mewn modd priodol a diogel. Cyflawnwyd gwiriadau ac archwiliadau i sicrhau bod y gwasanaeth yn ddiogel ac effeithiol. Roedd yr holl gofnodion clinigol yn cael eu cynnal yn dda.**

**Gwnaethom nodi bod angen gwella agweddau ar y meysydd canlynol: prosesau ar gyfer gwirio a chofnodi lefelau stoc cyffuriau a reolir; roedd un aelod o staff angen hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd; (CPR)roedd yna angen cynyddu niferoedd y staff a oedd wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf ac roedd angen hyfforddiant diogelu ar gyfer plant ac oedolion sy'n agored i niwed ar sawl un o'r staff.**

### Gofal diogel

*Cyfleusterau clinigol*

Gwelsom fod yr holl ystafelloedd triniaeth yn lân, yn daclus ac wedi'u trefnu'n dda. Gwelsom fod y practis wedi cymryd camau i sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion. Gwelsom fod y practis yn amlwg yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac roedd diffoddwyr tân wedi'u lleoli'n strategol ac wedi cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus. Roedd cynwysyddion ar gyfer offer miniog wedi'u cadw'n ddiogel a gwnaethom awgrymu y gallai'r practis hefyd ystyried gosod y rhain ar y wal er mwyn diogelwch ychwanegol.

Gwnaethom edrych ar yr asesiadau risg ar gyfer Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) [2] a gweld bod dalenni data diogelwch wedi cael eu

[2] COSHH yw'r ddeddf sy'n mynnu bod cyflogwyr yn rheoli sylweddau peryglus i iechyd. Mae rhagor o wybodaeth ar wefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch trwy ddilyn y ddolen ganlynolhttp://www.hse.gov.uk/cosh/index.htm

cadw ar gyfer pob sylwedd ac roedd asesiadau risg a oedd yn benodol i'r gweithle a'r amgylchedd wedi'u cwblhau.

Gwelsom fod profion dyfeisiadau cludadwy wedi cael eu cynnal i sicrhau bod dyfeisiadau trydanol bach yn cael eu defnyddio’n ddiogel yn y practis. Gwelsom fod tystysgrifau diogelwch nwy hefyd ar gael. Dywedodd y staff wrthym eu bod wrthi'n trefnu tystysgrif drydanol bum mlynedd o hyd newydd ar gyfer yr adeilad ac fe welsom dystysgrif wifrau newydd yn dilyn hynny.

*Rheoli heintiau*

Roeddem yn fodlon ar y trefniadau i ddiogelu staff a chleifion rhag heintiau y gellir eu hosgoi sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn y practis deintyddol hwn. Mae hyn oherwydd i ni weld tystiolaeth bod mesurau atal a rheoli heintiau ar waith a oedd yn seiliedig ar ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.[3] Roedd enghreifftiau’n cynnwys y canlynol:

- Ystafell bwrpasol ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol gyda sinc benodol i olchi dwylo
- Roedd cyfarpar diogelu personol megis menyg tafladwy, ffedogau a chyfarpar diogelu llygaid ar gael ac yn cael eu defnyddio
- Roedd y cyfarpar a oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer glanhau a sterileiddio’r offerynnau mewn cyflwr da yn ôl pob golwg
- Roedd llyfrau cofnodion ar gyfer gwirio'r offer sterileiddio wedi cael eu cadw, gan gynnwys profiion dyddiol. Roedd cofnodion ar gyfer pob cylch sterileiddio'n cael eu cadw yn electronig, a chopi wrth gefn yn cael ei gadw
- Roedd offerynnau wedi'u storio'n briodol ac wedi'u dyddio.

Gwelsom dystiolaeth bod archwiliadau rheoli heintiau wedi cael eu cwblhau, yn unol ag argymhellion canllawiau Memorandwm Iechyd Technegol Cymru 01-05, sy'n benodol i Gymru. Gwelsom fod yr holl nyrsys deintyddol wedi cwblhau hyfforddiant dadheintio, fel yr argymhellir gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

---

[3] http://www.wales.nhs.uk/sites3/docopen.cfm?orgid=254&id=232444

*Cyffuriau brys a chyfarpar dadebru*

Roedd cyfarpar dadebru a chyffuriau brys ar gael yn y practis, ac roedd systemau ar waith i sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n ddiogel ac ar gael i'w defnyddio pe bai argyfwng claf (llewyg). Roedd cyffuriau brys wedi eu trefnu'n dda, gyda siartiau llif cynnal bywyd cyfatebol i'w defnyddio mewn argyfyngau penodol.

Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod staff wedi derbyn hyfforddiant i ymdrin ag argyfyngau meddygol, a sut i gyflawni dadebru cardio-pwlmonaidd. Fodd bynnag, roedd angen diweddaru hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd ar un aelod o staff.

Roedd trefniant dros dro gan y practis lle bo un unigolyn yn y tîm wedi'i benodi'n swyddog cymorth cyntaf. Roedd wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol. Rhoddwyd sicrwydd inni y caiff hyfforddiant staff pellach ei drefnu, yn sgil penodiadau staff newydd ym mis Medi 2016, i gynyddu argaeledd swyddogion cymorth cyntaf o fewn y tîm.

Canfuom fod angen adolygu a diweddaru'r broses ar gyfer gwirio a chofnodi lefelau stoc cyffuriau a reolir.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r holl staff dderbyn hyfforddiant i ddiweddaru eu hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd bob blwyddyn.***

***Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod nifer digonol o staff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf.***

***Rhaid diweddaru a chynnal y broses ar gyfer gwirio a chofnodi lefelau stoc cyffuriau a reolir.***

*Diogelu*

Canfuom fod y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo a diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl. Roedd polisïau diogelu ar gyfer diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed ar waith. Fodd bynnag, canfuom nad oedd y staff i gyd wedi derbyn hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed***

*Offer radiograffeg*

Roedd ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd ar waith a gwelsom ddogfennaeth a oedd yn dangos bod y peiriannau pelydr-X wedi cael eu gwasanaethu yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Roedd cynlluniau ar gyfer ardaloedd rheoli radiograffeg ym mhob ystafell driniaeth. Canfuom fod yr holl ddeintyddion a nyrsys deintyddol a oedd yn cymryd rhan yn y broses o gynnal sganiau radiograffeg wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol. Mae hyn yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol[4] a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000. Canfuom fod y practis yn cwblhau archwiliadau radiograffig at ddibenion sicrhau ansawdd.

*Cofnodion cleifion*

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion deintyddol a gwnaethom siarad â dau ymarferydd deintyddol ar ddiwrnod ein harolygiad. Ar y cyfan, canfuom fod y gwaith o gadw cofnodion a rhoi gofal i gleifion o ansawdd da. Roedd hyn yn cynnwys cadw cofnodion manwl o hanesion cymdeithasol cleifion, diweddaru hanesion meddygol, a chadw manylion gwiriadau priodol ar gyfer archwiliadau clinigol y deintgig (archwiliadau periodontol sylfaenol).

*Gofal effeithiol*

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Roedd polisi cynllunio archwiliadau clinigol ar waith. Gwelsom fod y practis yn ymgymryd â'i brosesau arolygu mewnol ei hun a'i fod hefyd yn ymgymryd ag archwiliadau perthnasol, gan gynnwys archwiliadau hylendid dwylo a radiograffau.

Gwnaethom gynghori'r practis i ystyried cynllunio archwiliadau arolygu gan gymheiriaid i fonitro a chyfrannu ymhellach at ansawdd y gofal a ddarperir.

---

[4] Cyngor Deintyddol Cyffredinol – http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Gweithredwyd y practis deintyddol yn effeithiol gan reolwr dros dro'r practis, a thîm o staff profiadol, brwdfrydig.Roedd gan y practis weithdrefnau clinigol a phrosesau sicrhau ansawdd priodol ar waith er mwyn sicrhau bod gofal a thriniaeth cleifion yn cael eu cyflenwi mewn modd diogel ac amserol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn derbyn cefnogaeth dda iawn yn eu swyddi**

Gwelsom fod y ddeintyddfa'n cael ei rhedeg yn dda. Roeddem yn gallu cadarnhau’r trefniadau hynny trwy edrych ar amrywiaeth o gofnodion a pholisïau, a thrwy drafodaethau ag aelodau o’r tîm deintyddol. Dywedwyd wrthym fod trefniadau ar waith er mwyn i staff leisio unrhyw bryderon, a dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent wneud hyn mewn gwirionedd. Gwelsom fod gwiriadau cyn cyflogaeth yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau newydd o staff cyn iddynt ymuno â'r practis, gan gynnwys cael eu clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Rheolwr y practis sy'n gyfrifol am weithrediad y practis o ddydd i ddydd. Roedd trefniadau ar waith ar gyfer achosion o absenoldebau staff trwy ganiatâd a phan fo swyddi'n dod yn wag. Roedd swyddi'n cael eu llenwi'n briodol ar draws y tîm a staff asiantaeth yn cyflenwi dros dro. Gwelsom dystiolaeth fod yr holl staff asiantaeth wedi derbyn hyfforddiant sefydlu ac fe'n sicrhawyd bod y gwiriadau cyflogaeth perthnasol wedi'u gwneud. Roedd gan bob aelod o'r tîm deintyddol gyfrifoldeb unigol clir dros agweddau penodol ar y gwasanaeth.

Yn gyffredinol, gwelsom fod hyfforddiant staff yn cael ei gadw'n gyfredol. Fodd bynnag, roedd rhai meysydd hyfforddiant staff angen eu diweddaru, sef diogelu a hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd.

Roedd yna nifer o bolisïau a drafodwyd â'r practis yn ystod yr arolygiad a oedd yn cyfeirio at y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC) a'r Memorandwm Technegol Iechyd (HTM) – nad ydynt yn berthnasol i bractisau yng Nghymru. Dylai pob polisi gyfeirio at sefydliadau a chanllawiau penodol i Gymru.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau bod yr holl bolisïau yn cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau Cymreig.***

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd Practis Deintyddol Fairlight yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni ar gyfer hynny.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Ar y cyfan, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â'r materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis ac sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[5] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[6] Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio cyfarpar a'r adeilad
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd rheoliadau yn y practis yr ymwelwyd ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

---

[5] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made

[6] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol Fairlight

## Dyddiad yr arolygiad: 1 Medi 2016

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| 7 | Mae angen i'r polisïau cwynion sydd ar gael i gleifion fod yn gyson ac yn unol â'r rheoliadau, gan gynnwys manylion cyswllt AGIC a thargedau amser ymateb i gwynion. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, Rheoliad 16 | | | |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| 10 | Rhaid i'r holl staff dderbyn hyfforddiant i ddiweddaru eu hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd bob blwyddyn. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 | | | |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | *Canllawiau Cyngor Dadebru'r DU Cyngor Deintyddol Cyffredinol 1.5.3* | Rheoliad 14 (1) (b) | | | |
| 10 | Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod nifer digonol o staff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf.<br><br>*Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf) 1981* | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br><br>Rheoliad 14 (1) (d) | | | |
| 10 | Rhaid diweddaru a chynnal y broses ar gyfer gwirio a chofnodi lefelau stoc cyffuriau a reolir.<br><br>*Rheoliadau Camddefnyddio Cyffuriau (Gwarchod Diogel) 2001* | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br><br>Rheoliad 14 (1) (b) | | | |
| 10 | Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed<br><br>*Canllawiau'r Cyngor Deintyddol* | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br><br>Rheoliad 14 (1) (a) | | | |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | *Cyffredinol 4.3.3 ac 8.5* | | | | |
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| 12 | Dylai'r practis sicrhau bod yr holl bolisïau yn cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau Cymreig. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br><br>Rheoliad 14 (1) (a) | | | |

**Cynrychiolydd y practis:**

**Enw (llythrennau bras):** ..............................................................................................

**Teitl:** ..............................................................................................

**Dyddiad:** ..............................................................................................